GORFFENNAF

# Allgymorth Cwm Taf Morgannwg

## Ble aethon ni?

Ysbyty Tywysoges Cymru

Meddygfa Pont Newydd

Canolfan Gymunedol Glyncoch

Llyfrgell y Porth

## Faint o bobl wnaethon ni siarad â nhw?

Buom yn siarad â 58 o bobl ar draws Cwm Taf Morgannwg

58

## *Beth glywsom ni?*

'Gwasanaeth anhygoel yng Nghanolfan Feddygol Pont Newydd, wedi bod erioed.' Ffoniais y bore yma i gael apwyntiad i fy merch, cynigion nhw apwyntiad 11yb i mi ar unwaith. Symudodd fy nghariad yma o Dreorci ac mae e wrth ei fodd yma hefyd.

Mae Canolfan Feddygol Ferndale a Meddygfa Tylorstown yn darparu gwasanaeth da. Rwy'n hapus gyda fy ngofal i a gofal fy mhartner. Mae Meddygfa Tylorstown yn anfon atgoffon am apwyntiadau, sy'n wych yn fy marn i.

'Rydw i wedi bod yng Nghanolfan Feddygol Pont Newydd ers dwy flynedd. Roeddwn i'n arfer byw yn Lloegr ac mae gen i wasanaeth llawer gwell yma, gofal gwell a mwy effeithlon. Rwyf hefyd wedi bod i Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn ystod y 12 mis diwethaf ac roeddwn i'n hapus gyda'r gofal yno.'

'Rydw i wedi bod yn ôl ac ymlaen i Ysbyty Brenhinol Morgannwg ers blynyddoedd ac rydw i ar fin cael dau lawdriniaeth ar fy llaw yno. Rwyf bob amser yn hapus gyda'r gofal rwy'n ei dderbyn yno ac nid oes gennyf unrhyw gwynion.

'Hapus iawn gyda fy ngofal yn Ysbyty Tywysoges Cymru ar ôl fy strôc fach'

'Doedd fy mhrofiad mamolaeth yn YTS ddim yn ofalgar iawn, rydw i nawr yn dod i YTC oherwydd hyn ac mae gen i wasanaeth llawer gwell'

'Mae angen mwy o ymwybyddiaeth o eiriolwyr dros bobl mewn cartrefi gofal, yn benodol gwasanaethau iechyd meddwl. Mae problem gyda staffio mewn cartrefi gofal, mae cleifion mewn perygl oherwydd hyn. Nid yw Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwthio hyfforddiant mewn gwasanaethau oedolion fel maen nhw'n ei wneud ar gyfer gwasanaethau plant.

'Rwy'n gweithio ac yn cefnogi oedolion ag Awtistiaeth a dim ond un gwasanaeth dydd sydd yn y Porth. Mae'r rhestrau aros yn hir ac mae rhieni'n mynd yn hŷn ac mae ganddyn nhw eu hanghenion cymhleth eu hunain. Mae angen mwy o wasanaethau i gefnogi pobl

'Profiad ofnadwy yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg, diwrnodau'n aros mewn cadair, roedd saith ohonom mewn ystafell gyda 'drips', roedd y staff yn cael eu rhuthro oddi ar eu traed ac roeddwn i'n teimlo bod hyn wedi effeithio ar fy ngofal'

'Rwy'n mynd i YCR am fy ngofal mamolaeth. Mae'r staff a'r bydwragedd yn wych ond rydw i bob amser yn aros oriau i weld yr ymgynghorydd. Dw i'n meddwl eu bod nhw'n gweld gormod o bobl ar unwaith ac yn methu cadw i fyny â'r cleifion

'Rhestrau aros ofnadwy. O ganlyniad i hyn mae gen i retina datgysylltiedig. Petawn i wedi cael fy nghataract wedi'i wneud yn gynt, ni fyddai hyn yn ganlyniad. Wnaeth yr optegydd ddim sylwi ar hyn pan oeddwn i'n mynd am fy archwiliadau.

'Gwasanaeth mamolaeth gwael yn YTS'.

LLAIS

Eich llais chi mewn iechyd a gofal | Your voice in health and social care